

GWASANAETH TAN AC ACHUB DE CYMRU



DEDDF LLEOLIAETH 2011: DATGANIAD POLISI CYFLOG 2022/2023

1.	CYFLWYNIAD	
1.1	Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ymrwymedig i weithredu trefniadau tâl cyflog cyson a chyfiawn i weithwyr. Mae'r polisi hwn yn datgan yr egwyddorion allweddol sy'n rhaid ymlynu wrthynt wrth benderfynu lefelau cyflog gweithwyr ac wrth gymeradwyo lwfansau sy'n berthynol i daliadau cyflog. Mae'n datgan y sail parthed penderfynu cyflogau, sut mae penderfynu lefelau cyflog, y dull o ddatblygu cyflog a chymeradwyo gweithio mewn swydd uwch dros dro, honoraria a thaliadau diswyddo.	AT 15.12.14
1.2	Yn unol â'r Ddeddf Lleoliaeth a Chod Arfer a Argymhellir ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Dryloywder Data, mae'r polisi hwn, y lluosrif cyflog rhwng y gweithiwr sy'n ennill y cyflog uchaf, a lefelau'r gweithwyr hŷn, wedi'u cyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub.	AT 15.12.14
1.3	Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn bod cyflogau'n cynnwys pob taliad gan gynnwys cyflog, lwfansau a threuliau. Mae pob taliad o'r fath wedi'u cwmpasu o fewn y polisi hwn neu'r polisïau eraill sy'n gysylltiedig â chyflog y cyfeirir atynt yn Adran 16. Nid oes rhyddid i wneud taliadau pellach sydd y tu hwnt i'r polisïau hyn.	AT 15.12.14
2.	CWMPAS	
2.1	Mae'r polisi yn gymwys i holl weithwyr Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.	AT 15.12.14
2.2	Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ffafrio trefniadau cydfargeinio ac yn cefnogi darpariaethau cyfredol ar lefel genedlaethol sy'n rheoli cyflogau ac amodau gwasanaeth ar gyfer y grwpiau canlynol o weithiwr: <ul style="list-style-type: none">• Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol• Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Cyd-gyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub• Cyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Llywodraeth Leol	AT 15.12.14

	<p>(Y Llyfr Gwyrdd)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arweiniad Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) o fewn ystod gyflog Meddyg Galwedigaethol (Apwyntiad cychwynnol gydag Ymgynghorydd) • Coleg Nyrsio Brenhinol - Agenda ar gyfer Newid y GIG - Cyfraddau Cyflog • Cydbwyllgor Trafod Telerau ar gyfer Gweithwyr Crefft a Gweithwyr Cysylltiol yr Awdurdodau Lleol • Cydbwyllgor Trafod Telerau (CTT) ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymunedol 	
2.3	<p>Mae'r pwyllgorau hyn yn adolygu lefelau cyflog yn flynyddol ac yn adrodd unrhyw ddyfarniad 'costau byw' i'r Awdurdod Tân ac Achub drwy law Grwpiau Gweithwyr. Mae'r rhain yn ddyfarniadau cyflog a gytunwyd ar lefel genedlaethol wrth gydfargeinio ac maent yn rhwymo Cyflogwyr i'w gweithredu, ac fe'u telir i staff cyn gynted â phosib. Hysbysir yr Awdurdod Tân yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân yng Nghyhoeddiadau'r Cadeirydd.</p>	<p>AT 15.12.14</p> <p>AT 12.02.18</p>
2.4	<p>Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub drefniadau bargeinio taliadau cyflog lleol ar gyfer gweithwyr eraill o fewn cwmpas y polisi hwn a chaiff unrhyw ddyfarniad 'costau byw' a gytunwyd yn lleol ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub a'i gynnwys yn eu cyfradd tâl (Diffoddwyr Tan Cynorthwyl).</p>	<p>AT 15.12.14</p>
3.	CYD-DESTUN CYFREITHIOL	
3.1	<p>Mae Adran 38 (1) o'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn gofyn ar Awdurdodau Lleol Lloegr a Chymru i gynhyrchu Datganiad Polisi Taliadau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyfeiriodd y Bil, fel y'i drafftwyd yn wreiddiol at Brif Swyddogion yn unig (term sy'n cynnwys Prif Swyddogion statudol ac anstatudol ill dau, a'u Dirprwyon; ond cyflwynodd ddiwygiadau sy'n adlewyrchu pryderon ynghylch tâl isel ac sydd hefyd yn tynnu ar 'Adolygiad Cyflogau Teg yn y Sector Cyhoeddus' 2011 gan Will Hutton ofynion i gymharu'r polisiâu ar roi Cydnabyddiaeth i Brif Swyddogion a gweithwyr eraill, ac i amlinellu'r polisi mewn perthynas â'r rhai sy'n ennill y cyflogau isaf.</p>	<p>AT 15.12.14</p>
3.2	<p>Mae'r Ddeddf, fel y'i pasiwyd yn derfynol, yn gofyn i'r Datganiad Polisi Taliadau gwmpasu agweddau anghyfartal o bolisi cydnabyddiaeth, ac mae'n ofynnol cynnwys y canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi Awdurdod Lleol ar lefel ac elfennau o gydnabyddiaeth i bob Prif Swyddog • Polisi Awdurdod Lleol ar gydnabyddiaeth i'w gweithwyr a delir lleiaf (ynghyd â'i ddiffiniad o "weithwyr a delir lleiaf" a'i resymau am fabwysiadu'r diffiniad hwnnw) • Polisi Awdurdod Lleol ar y cysylltiad rhwng cydnabyddiaeth ei Brif Swyddogion a Swyddogion eraill • Polisi Awdurdod Lleol ar agweddau penodol eraill o gydnabyddiaeth Prif Swyddogion: cydnabyddiaeth ar recriwtio, chwyddiannau ac ychwanegiadau i 	<p>AT 15.12.14</p>

	gydnabyddiaeth, defnydd taliadau sy'n berthynol i berfformiad a bonysau, taliadau terfynu a thryloywder	
3.3	Mae'r Ddeddf yn diffinio cydnabyddiaeth yn eang, nid yn unig i gynnwys tâl cyflog, ond hefyd codiannau, ffioedd, lwfansau, buddion mewn nwyddau, chwyddiannau/ychwanegiadau mewn hawliau pensiwn, a thaliadau terfynu.	AT 15.12.14
3.4	At bwrpas y datganiad hwn, ni chyfyngir y term "Prif Swyddog" i Benaethiaid Gwasanaeth Tâl neu Brif Swyddogion Statudol yn unig. Cynhwysir hefyd y sawl sy'n adrodd yn uniongyrchol iddynt, boed yn statudol neu'n anstatudol. I'r Gwasanaeth Tân ac Achub, bydd hyn yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a'r Prif Swyddogion Cynorthwyol.	AT 15.12.14 AT 12.02.18
3.5	Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gofyn i Awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi'u Polisi Taliadau ar bob agwedd o Gydabyddiaeth y Prif Swyddog (gan gynnwys ar ôl iddo adael ei swydd), a chydabyddiaeth y 'gweithwyr a delir lleiaf' yn yr Awdurdod, yn esbonio eu Polisi ar y berthynas rhwng cydnabyddiaeth y Prif Swyddogion a grwpiau eraill.	AT 15.12.14
3.6	Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol dros dryloywder dan y Ddeddf Lleoliaeth uchod, mae Polisi Taliadau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn manylu ar bob un o'r trefniadau a ddatryswyd.	AT 15.12.14
4.	LLUNIAD CYFLOG Y PRIF SWYDDOGION	
4.1	Mae Cyd-gyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigâd y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cyfansoddiad Gwasanaethau a Chynllun Amodau Gwasanaeth y 5 ^{ed} rhifyn 2006) yn cadarnhau'r agwedd ar gyflogau Prif Swyddogion. Mae'n nodi bod dull dau drac ar gyfer pennu lefelau tâl ar i rolau Rheolwyr Brigâd. Ar lefel genedlaethol bydd y GCG yn adolygu'n flynyddol lefel y codiad cyflog sy'n berthnasol i bawb a gwmpasir o dan y cytundeb hwn. Wrth wneud hyn, bydd y GCG yn ystyried fforddiadwyedd, deliau cyflog perthnasol eraill a'r gyfradd chwyddiant ar y dyddiad priodol. Bydd unrhyw gynnydd y cytunir arno gan y GCG yn cael ei gyfleu i'r Awdurdodau Tân drwy law cylchlythyr. Yr Awdurdod Tân ac Achub lleol fydd yn gwneud pob penderfyniad arall ynghylch lefel y tâl a'r gydnabyddiaeth a ddyfernir i rolau Rheolwyr Brigâd unigol, a fydd yn adolygu'r lefelau cyflog hyn yn flynyddol.	AT 15.12.14
4.2	Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cyflogi Prif Swyddogion dan delerau ac amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol sydd wedi'u hymgorffori yn eu cytundebau. Mae'r Cyd-gynghorau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Tân / Prif Swyddogion yn trafod telerau chwyddiannau cenedlaethol (Y DU) i daliadau costau byw ar gyfer y grŵp hwn, a phenderfynir dyfarniad o'r un	AT 12.10.15

	fath ar y sail hon. Mae gan Brif Swyddogion Tân/Prif Swyddogion a gyflogwyd o dan delerau ac amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i dderbyn unrhyw chwyddiant tâl cyflog a benderfynwyd gan y Gyd-Cyngor Cenedlaethol ac felly bydd yr Awdurdod Tân ac Achub hwn yn talu'r chwyddiannau hyn fel y penderfynwyd yn unol â gofynion cyfredol eu cytundebau.															
4.3	Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi penderfynu'n ddiweddar y dylai neilltuo'r Pwyllgor AD a Chydraddoldeb i ystyried cydnabyddiaeth y Prif Swyddogion ac adrodd eu canfyddiadau i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn i'w benderfynu'n derfynol. Mae Cyd-gyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub (Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwasanaeth Gwasanaethau, 5ed argraffiad 2006) yn cymeradwyo adolygu holl lefelau cyflogau'n flynyddol.	AT 15.12.14														
4.4	Adnabyddir matrices cydnabyddiaeth Tîm Arwain Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru i gynnwys: <table border="1" data-bbox="331 898 1182 1373"> <thead> <tr> <th><i>Teitl :</i></th> <th><i>Canran tybiannol cyflog y PST</i></th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><i>Prif Swyddog Tân (PST)</i></td> <td><i>100%</i></td> </tr> <tr> <td><i>Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST)</i></td> <td><i>80% o dâl y PST</i></td> </tr> <tr> <td><i>Dirprwy Brif Swyddog (DBS)</i></td> <td><i>95% o dâl y DBST</i></td> </tr> <tr> <td><i>Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)</i></td> <td><i>75% o dâl y PST</i></td> </tr> <tr> <td><i>Prif Swyddog Cynorthwyol (PSC)</i></td> <td><i>82.5% o dâl y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</i></td> </tr> <tr> <td><i>Trysorydd*</i></td> <td><i>70.88% o dâl y PSC</i></td> </tr> </tbody> </table> <p>*Mae'r Trysorydd yn ymateb yn uniongyrchol i'r ATA - nid yw'n dal unrhyw gyfrifoldeb cyfarwyddiaeth ac fe'i cyflogir am 118 diwrnod y flwyddyn.</p> <p>Noder: O dro i dro, efallai bydd angen diwygio'r ffigyrau canran i adlewyrchu'r dyfarniad cyflog a wnaed i sicrhau bydd cyflog pob rôl mewn gwirionedd yn derbyn y dyfarniad cyflog. Er enghraifft:-</p> <p>Y PST - Dyfarniad 1% – Cyflog £129,820 y.f. i £131,118 y.f. DBST 80% o dâl y PST – Cyflog £103.856 y.f. i £104,895 y.f. DBS 95% o y DBST – Cyflog £98,859 y.f. i £99,650 y.f. (llai nag 1% o ddyfarniad cyflog £98,859 + 1% = £99,848 y.f.). Felly, dylid addasu'r dyfarniad 0.189% i 95.189% = £99,848 y.f.</p>	<i>Teitl :</i>	<i>Canran tybiannol cyflog y PST</i>	<i>Prif Swyddog Tân (PST)</i>	<i>100%</i>	<i>Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST)</i>	<i>80% o dâl y PST</i>	<i>Dirprwy Brif Swyddog (DBS)</i>	<i>95% o dâl y DBST</i>	<i>Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)</i>	<i>75% o dâl y PST</i>	<i>Prif Swyddog Cynorthwyol (PSC)</i>	<i>82.5% o dâl y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</i>	<i>Trysorydd*</i>	<i>70.88% o dâl y PSC</i>	
<i>Teitl :</i>	<i>Canran tybiannol cyflog y PST</i>															
<i>Prif Swyddog Tân (PST)</i>	<i>100%</i>															
<i>Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST)</i>	<i>80% o dâl y PST</i>															
<i>Dirprwy Brif Swyddog (DBS)</i>	<i>95% o dâl y DBST</i>															
<i>Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)</i>	<i>75% o dâl y PST</i>															
<i>Prif Swyddog Cynorthwyol (PSC)</i>	<i>82.5% o dâl y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</i>															
<i>Trysorydd*</i>	<i>70.88% o dâl y PSC</i>															
4.5	Penderfynodd yr Awdurdod Tan ac Achub ar y 9fed o Orffennaf 2018 y byddai swyddi di-wisg y DBS, y PSC a'r Trysorydd yn swyddi pwynt cyflog sengl ac fe'u pennir ar sail canran fel y nodwyd o fewn pwynt 4.4	AT 15.12.14 AT 09.07.18														
4.6	I gwrdd ag anghenion gweithredol y Gwasanaeth, roedd angen i'r strwythur cydnabyddiaeth dilynol adlewyrchu'r ymrwymiad i	AT 15.12.14														

	ddarparu gwasanaeth grymus a hyblyg.	
4.7	Penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub (Rhif Cyfeirnod Cofnod 67 Medi 2009), y dylid ffurfio'r Tîm Arwain Gweithredol o bum cyfarwyddwr. Hefyd, adrodda'r Trysorydd yn uniongyrchol at yr Awdurdod Tan ac Achub, ond nid yw'n dal unrhyw gyfrifoldeb cyfarwyddiaeth.	AT 15.12.14
4.8	Penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub, (Rhagfyr 2010), i hysbysebu swydd y Dirprwy Brif Swyddog ac agor ceisiadau i ymgeiswyr gwisg a di-wisg ill dau, wrth osod cydnabyddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog ar 95% o gydnabyddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân.	AT 15.12.14
4.9	Ail-ymwelodd yr Awdurdod Tân ac Achub â'r amrywiannau canran perthnasol ar lefelau Dirprwy a Chynorthwyol yn ei gyfarfod ar y 9fed o Orffennaf 2018 a phenderfynodd ymhellach i gyflwyno teitlau a threfniadau graddio a gydnabuwyd ym Mharagraff 4.4.	AT 15.12.14 AT 09.07.18
4.10	Sefydli'r cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol ar 82.5% o gyfradd lawn y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.	AT 15.12.14 AT 09.07.18
4.11	Pennir cydnabyddiaeth Prif Swyddogion ar benodiad gan yr Awdurdod Tan ac Achub llawn. Nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n talu cyflogau sy'n gysylltiedig â pherfformiad neu fonysau ac ni chynigir lwfansau ychwanegol neu daliadau chwyddo i gyflog neu bensiwn pan y'i cyflogir. Pan fyddant yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau, ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol heblaw am y rhai hynny sy'n ddyledus at bwrsasau cyflog neu daliadau a wnaed i'r unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol ar adeg ymddeoliad.	AT 15.12.14
4.12	Cyhoeddir gwybodaeth am gydnabyddiaeth Prif Swyddogion fel rhan o ddatganiad ariannol diwedd blwyddyn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.	AT 15.12.14
4.13	Yn unol â'r Datganiad Polisi Taliadau hwn, dylid adolygu lefelau cydnabyddiaeth Prif Swyddogion yn flynyddol fel rhan o ymrwymiad Awdurdod Tân ac Achub De Cymru i gynnal strwythur graddio a chydabyddiaeth cystadleuol. Yn absenoldeb cyfarwyddyd a bennwyd yn genedlaethol ar chwyddiannau 'costau byw', gall yr Awdurdod Tân ac Achub gydnabod a chytuno cyfradd a dyddiad gweithredu lleol. Bydd y Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal yn gyfrifol am adolygu'r sefyllfa hon, ac am wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn. Dim ond yr Awdurdod Tân ac Achub all wneud penderfyniad terfynol ynghylch cyfraddau cydnabyddiaeth i Brif Swyddogion, gan gynnwys dyfarniadau costau byw blynyddol.	AT 15.12.14

4.14	Ar y 27ain o Fawrth 2017, derbyniodd y Pwyllgor AD a Chydraddoldeb adroddiad yn nodi terfynu'r cyd-drefniadau ar gyfer darparu swydd Uwch Feddyg Iechyd Galwedigaethol ar y cyd. Penderfynwyd byddai GTADC yn unig yn cyflogi'r UFIG ar sail rhan amser. Bydd cydnabyddiaeth yn unol â chanllawiau Cymdeithas Feddygol Prydain (CFP) o fewn amrediad cyflog Meddyg Galwedigaethol (penodiad cychwynol fel Arbenigwr).	AT 15.12.14 AT 12.02.18
4.15	Ar y 19eg o Orffennaf 2021 cymeradwyodd yr Awdurdod Tân ganlyniad a gweithrediad ymarfer Gwerthuso Swydd i Staff Corfforaethol. Casglwyd a gwerthuswyd gwybodaeth yn erbyn 13 o ffactorau sy'n gysylltiedig a'r swydd yn ôl diffiniad y Cydgyngor Cenedlaethol (CGC) ar gyfer Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Roedd yr egwyddorion tâl a fabwysiadwyd yn cynnwys ystyriaeth o nifer o ffactorau gan gynnwys y fframwaith tâl i'w weithredu o ganlyniad i'r ymarfer. Arweiniodd hyn at y pwynt isaf ar y raddfa'n dod yn bwynt 5 i Staff Corfforaethol. Y dyddiad gweithredu effeithiol oedd 1af o Awst 2021.	AT 19.07.21
5.	RHEOLWYR ARDAL (PEDAIR SWYDD) – CYTUNDEB LLEOL	
5.1	Yn dilyn adolygiad o rota sefydlu a gweithredol i Reolwyr Ardal, penderfynwyd y dylid lleihau nifer y swyddi o 6 i 4 o fis Awst 2009, wrth symud at rota system ddyletswydd barhaol.	AT 15.12.14
5.2	Cytunwyd yn lleol ar y cynllun cydnabyddiaeth i'r grŵp hwn o staff fel a ganlyn:- Cyflog AMB yn unol â graddfeydd cyflog cytunedig gweithwyr gwisg Gwasanaethau Tân ac Achub y CGC, ynghyd â lwfans dyletswydd hyblyg o 20%, a thaliad system dyletswydd barhaus o 14%.	AT 15.12.14
6.	PENAETHIAID GWASANAETHAU CORFFORAETHOL (PEDAIR SWYDD)	
6.1	Pennir cyfradd y gydnabyddiaeth i Benaethiaid Gwasanaethau ar bwynt sy'n uwch na'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (Y Cydgyngor) am raddfeydd cyflog i Wasanaethau'r Llywodraeth Leol ac fe'i mynegir fel canran o waelodlin gyflog Prif Swyddog Cynorthwyol.	AT 15.12.14
7.	HOLL STAFF ERAILL	
7.1	Cwmpasir pob aelod arall o'r staff a gyflogir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru o fewn categorïau Staff Llawn Amser, Ar Alwad, Rheoli a Chynnal ac, o'r herwydd, selir eu cydnabyddiaeth ar gynlluniau cyflog perthnasol a gytunwyd â'r Cyd-gyngor Cenedlaethol fel yr adnabuwyd o fewn paragraff 2.2.	AT 15.12.14
7.2	Yn gyffredinol, cwmpasir y telerau ac amodau ar gyfer cyflogaeth i'r holl staff gan gyd-gytundebau cyfredol a negodwyd â'r undebau llafur hynny a anabyddir gan yr Awdurdod Tân ac Achub at ddibenion cydfargeinio. Mae'r trefniadau hyn wedi'u corffori yng Nghynllun Amodau Gwaith y	AT 15.12.14

	Cyd-gyngor Cenedlaethol ac fe'u hatodir gan reolau, cofnodion a Dogfennau Polisi a Gweithdrefnau Gweithredol yr Awdurdod Tân ac Achub a chyfarwyddiadau eraill, fel y'u diwygiwyd, ynghyd â deddfwriaeth cyfraith cyflogaeth arall fydd yn gymwys o dro i dro.													
7.3	Y "cyflog isaf" a ddefnyddir gan yr Awdurdod Tan ac Achub yw pwynt 5 ar golofn gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol (Y Cyd-gyngor) ar gyfer gwasanaethau'r Llywodraeth Leol (y Llyfr Gwyrdd) Pwynt 52 ar y Golofn Gyflog.	AT 19.07.21												
7.4	Mae archwiliad o'r lefelau tâl cyfredol o fewn yr Awdurdod yn caniatáu'r Awdurdod i adnabod y lluosydd rhwng y pwynt cyflog isaf ag un y Prif Swyddog Tân. Y lluosydd rhwng y gweithiwr cyflogedig isaf (llawn amser cyfartalog) a'r Prif Swyddog Tân yw 1:7.72.	AT 15.12.14												
8	LEFELAU AWDURDOD DIRPRWYEDIG													
8.1	Bydd unrhyw amrywiant i'r cyflog a nodwyd o fewn y polisi hwn yn amodol ar gymeradwyaeth briodol, fel y disgrifiwyd isod.	AT 15.12.14												
8.2	Dyrennir penderfyniadau ar gyflogau a fanylwyd o fewn y polisi hwn fel a ganlyn:-	AT 15.12.14												
	<table border="1"> <thead> <tr> <th>PENDERFYNIAD</th> <th>LEFEL AWDURDOD DIRPRWYEDIG</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td><i>Cyflog cychwynnol (uwchben y radd isafswm) ond heb gynnwys y Prif Swyddog Cynorthwyol (a'r lefel gyfatebol)</i></td> <td><i>Y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl (Fel yr adnabuwyd o fewn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Tân ac Achub)</i></td> </tr> <tr> <td><i>Cyflog Cychwynnol y Prif Swyddog Cynorthwyol (a'r lefel gyfatebol) ac uwch</i></td> <td><i>Awdurdod llawn i gytuno strwythur sefydliadol yr Uwch Dîm Rheoli gan gynnwys graddau a bandiau cyflog.</i> <i>Panel penodi i gytuno a chymeradwyo'r cyflog gwirioneddol wrth benodi o fewn strwythur rheoli a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cyfan uchod.</i></td> </tr> <tr> <td><i>Penodiad i swydd gradd uwch (uwchben lleiafswm gradd) ond heb gynnwys lefel y Prif Swyddog Cynorthwyol.</i></td> <td><i>Y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl neu wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD.</i></td> </tr> <tr> <td><i>Taliad dros dro ar lefel y Prif Swyddog Cynorthwyol lle bydd y pecyn cyfanswm cyflog yn llai na £100,000.</i></td> <td><i>Y Prif Swyddog Tân</i></td> </tr> <tr> <td><i>Taliadau dros dro ar gyfer</i></td> <td><i>Yr Awdurdod Tân ac Achub</i></td> </tr> </tbody> </table>	PENDERFYNIAD	LEFEL AWDURDOD DIRPRWYEDIG	<i>Cyflog cychwynnol (uwchben y radd isafswm) ond heb gynnwys y Prif Swyddog Cynorthwyol (a'r lefel gyfatebol)</i>	<i>Y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl (Fel yr adnabuwyd o fewn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Tân ac Achub)</i>	<i>Cyflog Cychwynnol y Prif Swyddog Cynorthwyol (a'r lefel gyfatebol) ac uwch</i>	<i>Awdurdod llawn i gytuno strwythur sefydliadol yr Uwch Dîm Rheoli gan gynnwys graddau a bandiau cyflog.</i> <i>Panel penodi i gytuno a chymeradwyo'r cyflog gwirioneddol wrth benodi o fewn strwythur rheoli a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cyfan uchod.</i>	<i>Penodiad i swydd gradd uwch (uwchben lleiafswm gradd) ond heb gynnwys lefel y Prif Swyddog Cynorthwyol.</i>	<i>Y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl neu wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD.</i>	<i>Taliad dros dro ar lefel y Prif Swyddog Cynorthwyol lle bydd y pecyn cyfanswm cyflog yn llai na £100,000.</i>	<i>Y Prif Swyddog Tân</i>	<i>Taliadau dros dro ar gyfer</i>	<i>Yr Awdurdod Tân ac Achub</i>	
PENDERFYNIAD	LEFEL AWDURDOD DIRPRWYEDIG													
<i>Cyflog cychwynnol (uwchben y radd isafswm) ond heb gynnwys y Prif Swyddog Cynorthwyol (a'r lefel gyfatebol)</i>	<i>Y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl (Fel yr adnabuwyd o fewn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Tân ac Achub)</i>													
<i>Cyflog Cychwynnol y Prif Swyddog Cynorthwyol (a'r lefel gyfatebol) ac uwch</i>	<i>Awdurdod llawn i gytuno strwythur sefydliadol yr Uwch Dîm Rheoli gan gynnwys graddau a bandiau cyflog.</i> <i>Panel penodi i gytuno a chymeradwyo'r cyflog gwirioneddol wrth benodi o fewn strwythur rheoli a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cyfan uchod.</i>													
<i>Penodiad i swydd gradd uwch (uwchben lleiafswm gradd) ond heb gynnwys lefel y Prif Swyddog Cynorthwyol.</i>	<i>Y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl neu wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth AD.</i>													
<i>Taliad dros dro ar lefel y Prif Swyddog Cynorthwyol lle bydd y pecyn cyfanswm cyflog yn llai na £100,000.</i>	<i>Y Prif Swyddog Tân</i>													
<i>Taliadau dros dro ar gyfer</i>	<i>Yr Awdurdod Tân ac Achub</i>													

	<i>swyddi lle mae cyfanswm y pecyn cyflog yn fwy na £100,000.</i>	<i>Llawn</i>	
8.3	Mae Adnoddau Dynol yn gyfrifol am oruchwyllo unrhyw benderfyniadau ar gyflogau er mwyn sicrhau y cânt eu gwneud yn unol â'r lefelau awdurdod dirprwyedig a'u bod yn cydymffurfio ag amodau'r Polisi Tâl a'r ddeddfwriaeth.		AT 15.12.14
8.4	Ni all dirprwyaethau am benderfyniadau ar gyflogau gael eu dirprwyo'n is na'r lefelau a amlinellir o fewn y tabl uchod.		AT 15.12.14
9.	PERTHYNOLEDD TÂL O FEWN YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB		
9.1	Cyflogir y personau â'r tâl isaf a gyflogwyd o dan Gytundeb Cyflogaeth â'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyflogau llawn amser cyfartalog (37 awr) yn unol â'r pwynt isaf ar y gyfradd gyflog a ddefnyddir yn gyfredol o fewn strwythur graddio'r Awdurdod Tân ac Achub. Fel y mae ar y 1af o Awst 2021, £19,312 y flwyddyn fydd hwn. O bryd i'w gilydd, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cyflogi prentisiaid (a hyfforddeion eraill o'r fath) nad ydynt yn cael eu cynnwys o fewn y diffiniad 'gweithwyr â'r tâl isaf'.		AT 15.12.14
9.2	Mae'r canllawiau statudol o dan y Ddeddf Lleoliaeth yn argymhell defnyddio lluosyddion tâl fel modd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau cyflog ar draws y gweithlu a chyflogau uwch reolwyr.		AT 15.12.14
9.3	Mae'r Awdurdod yn rhoi cydnabyddiaeth i bersonél llawn amser uwchben y Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod wedi cytuno i ymuno â chynllun gwirfoddol i ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.		AT 20.12.21
10	CYFLOG CYCHWYNNOL		
10.1	Yn arferol, bydd gweithwyr a benodir i swyddi o fewn yr Awdurdod yn cael eu penodi i bwynt lleiafsymiol y raddfa gyflog ar gyfer y swydd.		AT 15.12.14
10.2	Mewn rhai amgylchiadau, fe all fod yn briodol i benodi i bwynt uwch ar y raddfa gyflog. Gall hwn godi pan fydd yr ymgeisydd dewisol ar gyfer y swydd yn derbyn neu wedi derbyn cyflog ar lefel uwch na'r raddfa leiafsymiol.		AT 15.12.14
10.3	Rhaid i Banel Penodi sy'n dymuno penodi ymgeisydd hyd at, ond heb gynnwys, lefel Prif Swyddog Cynorthwyol, ar gyflog sy'n uwch na'r radd leiafsymiol geisio am gymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Cynorthwyol, gan amlinellu'r achos fusnes yn llwyr. Gall Reolwyr ofyn am gyngor gan Adnoddau Dynol pe bai angen.		AT 15.12.14
10.4	Dylai'r achos fusnes ymgorffori'r dilynol:- • Cyflog cyfredol neu fwyaf diweddar yr ymgeisydd		AT 15.12.14

	<p>dewisol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amrediad cyflog y swydd a benodwyd iddi; canlyniad asesiad cyfweiliad yr ymgeisydd dewisol a manylion o'r pwyntiau a sgoriwyd gan ymgeiswyr eraill; • Manteision i'r gwasanaeth a chwsmeriaid o benodi'r ymgeisydd dewisol; • Effaith bosib ar ddeiliaid swyddi eraill o benodi'r ymgeisydd dewisol ar lefel sy'n uwch na'r raddfa leiafsymiol; • Cadarnhad y bydd costau uwch i weithwyr yn cael eu cwrdd gan gyllideb gyfredol y Gwasanaeth. 	
10.5	<p>Bydd y Prif Swyddog Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn ystyried y cais a gyflwynwyd gan y rheolwr recriwtio; • Yn trafod eu penderfyniad arfaethedig â'r Pennaeth Adnoddau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r Polisi Tâl; • Yn ymateb i'r panel penodi; • Yn cwblhau'r gymeradwyaeth gyflogres berthnasol fel gellir cwblhau'r broses recriwtio. 	<p>AT 15.12.14</p>
10.6	<p>Bydd penderfyniad y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl yn derfynol.</p>	<p>AT 15.12.14</p>
10.7	<p>Bydd datrysiad o'r Awdurdod Tan Achub llawn yn ofynnol i bob ail-strwythuriad sefydliadol yn ogystal â graddfeydd a chyflogau cysylltiol.</p>	<p>AT 15.12.14</p>
11.	AIL-GYFLOGI CYN-WEITHWYR	
11.1	<p>Mae cyn-weithwyr yn gallu cael eu hail-gyflogi gan yr Awdurdod Tân ac Achub, ond bydd sawl ffactor penderfyniaethol.</p>	<p>AT 15.12.14</p>
11.2	<p>Penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub cyflwyno cais i atal cyflogau/pensiynau am gyfnod penodedig er mwyn cynnal sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth arbenigol.</p>	<p>AT 15.12.14</p>
11.3	<p>Addawodd yr Awdurdod Tân ac Achub ymhellach i gyfeirio ceisiadau i ostwng cyflogau/pensiynau gan gyfarwyddwyr yn ôl i'r Awdurdod Tan ac Achub llawn i'w hystyried ar sail anghenion busnes.</p>	<p>AT 15.12.14</p>
11.4	<p>Pan fydd rhywun yn ymddeol, neu pan y'i rhyddheir ar sail diswyddo gwirfoddol neu orfodol, ni fydd disgwyliad y byddai'n cael ei ail-gyflogi naill ai fel gweithiwr neu fel gweithiwr asiantaeth/contractwr yn yr un rôl neu mewn rôl debyg neu mewn ardal gwasanaeth lle y'i diswyddwyd. Gall gweithred o'r fath ddynodi nad oedd y penderfyniad gwreiddiol ynghylch diswyddo gwirfoddol neu orfodol yn benderfyniad gwerth am arian i'r trethdalwr. Felly, bydd rhaid cyfiawnhau unrhyw eithriadau i'r dull hwn fydd yn arwain at ail-gyflogi gweithwyr diswyddiad gwirfoddol neu orfodol i sicrhau'r digwyddodd amodau gwreiddiol y diswyddo, h.y. y terfyniad gwaith.</p>	<p>AT 15.12.14</p>

11.5	Bydd angen i Reolwyr sy'n dymuno cyflogi cyn-weithwyr neu gaffael gweithwyr a ddiswyddwyd yn flaenorol o'r un ardal Gwasanaeth ddarparu achos fusnes ar gyfer gwneud hyn a cheisio cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol dynodedig.	AT 15.12.14
11.6	Pan ail-gyflogir pensiynwr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Wasanaethau Tân ac Achub (ar sail telerau ac amodau'r Llyfr Llwyd) o fewn y sector Llywodraeth Leol, a lle bydd cyfanswm enillion a phensiwn yn fwy na chyflog derfynol y gyflogaeth wreiddiol pan addaswyd ar gyfer chwyddiant, gostyngir y pensiwn.	AT 15.12.14
12.	CYTUNDEB DROS DRO I SWYDD GRADD UWCH	
12.1	Yn gyffredinol, cymhwysir gweithio mewn swyddi dyrchafedig i weithwyr ar delerau ac amodau'r Llyfr Llwyd. Bydd yn gymwys pan fydd y swydd raddfa uwch yn dod yn wag o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb o ganlyniad i salwch ac ati. Gwneir lwfansau camu i fyny i weithwyr sy'n cytuno i gyflawni dyletswyddau llawn neu ddyletswyddau rhannol ynghyd â chyfrifoldebau'r swydd gradd uwch. Rhaid bod y swydd gradd uwch yn rhan o sefydliad staffio cytunedig yr Awdurdod.	AT 15.12.14
12.2	Mae'r lwfans yn daladwy pan fydd gweithiwr yn cyflawni gwaith swydd gradd uwch am gyfnod parhaol am unrhyw reswm heblaw am wyliau blynyddol.	AT 15.12.14
12.3	Bydd gweithwyr sy'n ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau llawn swydd gradd uwch yn derbyn y gyflog fyddai'n gymwys pe baent wedi'u dyrchafu i'r swydd gradd uwch.	AT 15.12.14
12.4	Bydd gweithwyr sy'n ymgymryd â rhan o ddyletswyddau a chyfrifoldebau swydd gradd uwch yn derbyn lwfans camu i fyny rhannol. Er enghraifft, os yw'r gweithiwr yn cwmpasu 20% o'r dyletswyddau a'r chyfrifoldebau gradd uwch, byddant yn derbyn 20% o'r gwahaniaeth gradd fel lwfans camu i fyny.	AT 15.12.14
12.5	Lle bydd dim ond un neu ddau weithiwr yn unig a all "gamu i fyny" i swydd gradd uwch, mae'n gymharol hawdd adnabod y deilydd/deiliaid swydd y gellir eu gofyn yn rhesymol i gyflawni'r swydd gradd uwch. Lle bydd nifer fawr o weithwyr a all fod mewn sefyllfa i "gamu i fyny" i swydd gradd uwch, bydd angen hysbysebu'r swydd wag dros dro neu'r drefniadaeth camu i fyny.	AT 15.12.14
12.6	Rhaid i reolwyr sy'n dymuno defnyddio trefniadau camu i fyny llawn neu rannol geisio cymeradwyaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol (neu'r Pennaeth Adnoddau Dynol, yn dibynnu ar lefel y swydd). Yn ychwanegol, gall rheolwr hefyd geisio am gyngor gan Adnoddau Dynol, pe bai angen.	AT 15.12.14

12.7	<p>Bydd y swyddog cymeradwyo yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried y cais a gyflwynwyd gan y rheolwr sy'n holi; • Trafod eu penderfyniad arfaethedig â'r Adran Adnoddau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r polisi Tâl; • Darparu ymateb i'r rheolwr sy'n holi, fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith; • Cwblhau a hysbysu'r Adran Gyflogres os bydd amrywiant tâl yn cael ei gyflawni. 	AT 15.12.14
12.8	<p>Rhaid bydd unrhyw drefniadau camu i fyny ar lefel Prif Swyddog Cynorthwyol yn cael eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Tân. Hefyd, rhaid i unrhyw drefniadau camu i fyny am swyddi sydd â phe cyn cydnabyddiaeth o £100,000 neu uwch gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân Achub llawn. Yn y ddwy achos, rhaid i'r gyflog fod o fewn y strwythur sefydliadol a gytunwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn a'i hariannu'n gyfan.</p>	AT 15.12.14
12.9	<p>Dileer lwfansau camu i fyny pan na fydd yr angen am y trefniadau camu i fyny yn bodoli rhagor. Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bydd gweithwyr yn derbyn rhybudd digonol o hyn.</p>	AT 15.12.14
13	TALIADAU HONORARIWM	
13.1	<p>Taliad un tro yw taliad honorariwm. Dim ond lle bydd tystiolaeth glir y gellir ei wneud i gefnogi'r amgylchiadau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lle bydd gweithiwr yn cyflawni gwaith ychwanegol sylweddol dros dro y tu hwnt i'w gyfrifoldebau arferol ef/chyfrifoldebau arferol hi; <p>Lle bydd gweithiwr yn cyflawni gwaith sylweddol y tu hwnt i'w oriau/horiau cytundebol cyffredin, ond nid yw'n gymwys am daliadau goramser o ganlyniad o'u rhoi ar raddfa gyflog.</p>	AT 15.12.14
13.2	<p>Ni ellir gwneud taliad honorariwm o dan yr amgylchiadau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lle bydd gweithiwr yn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau llawn neu rannol swydd gradd uwch, pan ddylid gwneud taliad camu i fyny; • Lle newidiodd ddyletswyddau a chyfrifoldebau parhaol y swydd i'r graddau y dylid cyflwyno'r swydd i'w ail werthuso; • Lle bydd y gwaith ychwanegol a ymgwymerwyd ag ef yn gymesurol â swydd-ddisgrifiad/gradd gyflog gyfredol y gweithiwr. 	AT 15.12.14
13.3	<p>Os bydd taliad honorariwm yn arwain at becyn cydnabyddiaeth sy'n fwy na £100,000, rhaid iddo hefyd gael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub, wedi derbyn cyngor gan y Prif Swyddog Cynorthwyol</p>	AT 15.12.14

	Gwasanaethau Pobl neu eu cynrychiolydd enwebedig.	
13.4	Taliadau un tro yw taliadau honorariwm ac fe'u telir ar sail pro rata i weithwyr rhan amser, yn gymesurol â'u horiau gwaith.	AT 15.12.14
13.5	Bydd taliadau honorariwm a selir ar wahaniaethau pwynt cyflog yn amodol ar unrhyw gynnydd mewn costau byw a gymhwysir gan yr Awdurdod Tân ac Achub.	AT 15.12.14
13.6	Mae taliadau honorariwm yn bensiynadwy.	AT 15.12.14
13.7	Coladir pob gwybodaeth ar yr holl daliadau honoraria gan Adnoddau Dynol a'u hadolygu'n flynyddol ac fe'u hadroddir i'r Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal at ddibenion monitro.	AT 15.12.14
14	TÂL DISWYDDO	
14.1	Wrth iddynt orffen gweithio i'r Awdurdod Tân ac Achub, telir taliadau i weithwyr sy'n ddyledus iddynt o dan eu cytundeb cyflogaeth. Mewn achos o ddiswyddiad, telir tâl diswyddo yn unol â disgresiwn y cyflogwr fel y datganwyd o fewn y Polisi Diogelu Cyflogaeth a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub ac a gedwir gan Adran Bensiynau Rhondda Cynon Taf.	AT 15.12.14
14.2	Rhaid adrodd pob achos fusnes ar gyfer diswyddo, ymddeoliad cynnar a chyflog diswyddo i'r Awdurdod Tân ac Achub i'w craffu cyn bydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniad i dderbyn neu wrthod.	AT 15.12.14
14.3	Rheoleiddiad 30(6) "Ymddeoliad Hyblyg" – Disgresiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cymhwysir y disgresiwn hwn, yn amodol ar y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl yn cymeradwyo'r cais wedi ystyried y costau a'r buddion i'r sefydliad. Bydd gofyniad ar y gweithiwr i leihau ei oriau gwaith gan leiafswm o 40% man lleiaf. Bydd unrhyw ostyngiadau actwaraidd mewn buddion pensiwn yn gymwys.	AT 14.03.15
14.4	Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub / Pwyllgor AD a Chydraddoldeb yn derbyn adroddiadau i gydlofnodi penderfyniadau'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl.	AT 14.03.15
15	GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB GWISG	
15.1	Telir pob gweithiwr i'r Gwasanaeth Tân ac Achub, hyd at ac i gynnwys Rheolwyr Ardal, yn unol â Chynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol. Telerau ac amodau a gytunwyd yn genedlaethol yw'r rhain (y Llyfr 'Llwyd').	AT 15.12.14
15.2	O dan Gyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwaith y Cyd-gyngor	AT

	<p>Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd y Gwasanaethau Tân ac Achub, (y Llyfr 'Aur'), mae gan y Prif Swyddog Tân a Rheolwyr Brigâd drefniadau tâl ar wahân mewn lle. Adolygir cyflog y Prif Swyddog Tân cyn gwneir penodiad newydd a chymerir nifer o ffactorau i ystyriaeth yn ystod y broses hon. Crynhoir y rhain isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflog lleiafswmiol perthnasol y Prif Swyddog Tân a'r data meincnodol mwyaf perthnasol; • Perthynas y cyflog cyfredol i'r meincnod cenedlaethol; • Unrhyw ffactorau lleol sylweddol nad sy'n gyffredin i Awdurdodau Tân ac Achub o faint a math tebyg; • Gwybodaeth gymharol ar gyflogau mewn awdurdodau tebyg eraill; • Strwythurau'r uwch reolwyr a maint y tîm rheoli o'i gymharu â rhai Awdurdodau Tân ac Achub eraill o'r un fath a maint; • Maint cymharol pob swydd a • Chyfrifoldeb rheoli digwyddiadau a'r angen i ddarparu cwmnasiad gweithredol o fewn yr awdurdod sy'n cyflogi a thu hwnt. 	15.12.14
15.3	Gellir adolygu rheolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub eraill a delir yn ôl canran cyflog y Prif Swyddog Tân ar yr un adeg ag unrhyw adolygiad o gyflog y Prif Swyddog Tân.	AT 15.12.14
15.4	Ar gyfer adolygiad, coladir y meincnodi a'r dadansoddiad cysylltiol gan yr Adran Adnoddau Dynol a chyflwynir unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal cyn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn am benderfyniad terfynol.	AT 15.12.14
16	POLISIÂU ERAILL SY'N GYSYLLTIEDIG TÂL CYSYLLTIOL ERAILL	
16.1	<p>Meysydd eraill sy'n ymwneud â pholisi tâl sy'n gymwys i bob gweithiwr yw:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teithio a Threuliau Busnes • Treuliau Adleoli • Delio â diswyddiadau • Ymddeoliad Cynnar – gan gynnwys diswyddo, ymddeoliad hyblyg ac effeithlonrwydd gwasanaeth • Pensiynau – Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2007 a Chynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) Cynllun Diwygiedig SddRhA a Chynllun Digolledu Diffoddwyr Tân 	AT 14.03.16
17	TELERAU AC AMODAU ERAILL	
17.1	Mae'r Ddeddf yn diffinio cydnabyddiaeth yn eang, nid yn unig i gynnwys tâl cyflog, ond hefyd codiannau, ffioedd, lwfansau, buddion mewn nwyddau, chwyddiannau/ychwanegiadau mewn hawliau pensiwn a thaliadau terfynu (Gweler Adran 4 Adeiledd	AT 15.12.14

	Tâl Prif Swyddogion).	
17.2	Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n cyfrannu at daliadau cerbydau les Uwch Aelodau ei staff sy'n dewis cymryd rhan yng nghynllun cerbyd les y Gwasanaeth.	AT 15.12.14
17.3	Mae lefelau cyfraniadau yn gwahaniaethu ac yn ddibynnol ar swyddi penodol. Mae'r cyfraniadau hyn gan y Gwasanaeth yn rhan o gost y cerbyd les.	AT 15.12.14
17.4	<p>Cyflawnodd yr Awdurdod Tân ac Achub fframwaith strategol i sicrhau'r adnabyddod y Gwasanaeth ei swyddi allweddol ac yr ystyriodd faterion o hydwythedd wrth gefnogi darpariaeth cynllunio gweithlu'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Y bwriad yw defnyddio dull strwythuredig i adnabod swyddi critigol a datblygu rheolwyr a staff sydd â photensial mawr o fewn y sefydliad ill dau, a llywio'u datblygiad gyrfa a'u cynnydd i gyflawni'r swyddi hyn.</p> <p>Cynllunio am olyniaeth yw'r broses systematig lle bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn adnabod, asesu a datblygu'u gweithwyr i sicrhau eu bod yn barod i ymgymryd â rolau allweddol o fewn y Gwasanaeth. Dull strategol ydyw i sicrhau bydd y dalent a'r sgiliau hanfodol ar gael pan fydd ei angen, ac y cynhelir gwybodaeth a galluoedd hanfodol pan fydd gweithwyr mewn swyddi critigol yn gadael.</p>	AT 14.03.16
18	MONITRO AC ADOLYGU	
18.1	Bydd y Prif Swyddog Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl yn adolygu cymhwysiad y polisi hwn yn flynyddol.	AT 15.12.14
18.2	Yna cyflwynir y Polisi Cyflogau i'r Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal i'w adolygu cyn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn i'w benderfynu'n derfynol yn flynyddol ym mis Mawrth.	AT 15.12.14
18.3	Mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub llawn am unrhyw newid neu wriad rhag y polisi hwn y tu hwnt i adolygiad o'r fath.	AT 15.12.14
19	GRADDFEYDD CYFLOG	
19.1	Matrics Cyflogau Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaethau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – Atodiad 1	AT 15.12.14 AT 12.02.18
19.2	Matrics Cyflogau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol – Atodiad 2	AT 15.12.14 AT 12.02.18

19.3	Strwythur Tâl Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, System Ddyletswydd Ar-Alwad - Atodiad 3	AT 15.12.15 AT 12.02.18
19.4	Matrics Cyflogau Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Leol – Atodiad 4	AT 15.12.14 AT 12.02.18
19.5	Cyd-Bwyllgor Negodi ar gyfer Gweithwyr Crefft a Chysylltiol Awdurdodau Lleol – Atodiad 5	AT 15.12.14 AT 12.02.18
19.6	Diffoddwyr Tân Cynorthwyol - Awdurdod Tân Ac Achub De Cymru	AT 21.09.15 AT 12.02.18

**MATRICES CYFLOG PRIF SWYDDOGION A PHENAETHIAID GWASANAETH
AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU**

	Cyflog LI A	Gwir Gyflog
CYFARWYDDWYR (5 swydd)		
Y Prif Swyddog Tân	£139,831	£139,831
Y Dirprwy Brif Swyddog Tân (80% PST)	£111,865	-
Y Dirprwy Brif Swyddog (95.19% - DBST)	£106,484	£106,484
Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Gwasanaethau Technegol (75.15% PST)	£105,082	£105,082
Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Darparu Gwasanaethau (75.15% PST)	£105,082	£105,082
Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Gwasanaethau Pobl (82.5% - PSTC)	£86,693	£86,693
SWYDDOG STATUDOL (1 swydd)		
Trysorydd (70.88% -AGO)	£61,453	£27,887
• Mae'r Trysorydd yn adrodd i'r ATA, ac nid oes ganddo gyfrifoldeb Cyfarwyddiaeth, gan iddo gael ei gyflogi am 118 diwrnod y flwyddyn yn unig.		
PENAETHIAID GWASANAETH (8 swydd)		
Pennaeth Gwasanaeth Cyllid (63.634% - ACO PS)	£55,167	£55,167
Pennaeth Gwasanaeth Corfforaethol (63.634% - ACO PS)	£55,167	£55,167
Pennaeth Gwasanaeth AD (63.634% - PSC O.N)	£55,167	£55,167
Pennaeth Gwasanaeth TGCh (63.634% - PSC O.N.)	£55,167	£55,167
Rheolwr Ardal Gweithrediadau *	£83,793	£83,793
Rheolwr Ardal Pennaeth Rheoli Risg Gweithredol *	£83,793	£83,793
Rheolwr Ardal Pennaeth Lleihau Risg *	£83,793	£76,451
Rheolwr Ardal Hyfforddi a Datblygu *	£85,049	£85,049
* Rheolwr Ardal - Gwaelodlin	£61,667	
20% o lwfans dyletswydd hyblyg	£12,333	
14% tâl system ddyletswydd barhaus	£10,360	
CPD	£689	
* Yn Cynnwys Cynllun Amodau Gwaith Cyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol w.e.f y 1af o Orffennaf 2021		
MEDDYGOL (1 swydd)		
Meddyg Iechyd Galwedigaethol 50%	£107,646	£53,823
* Cynyddodd arweiniad Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) o fewn apwyntiad cychwynnol Meddyg Ymgynghorol (Meddygon Galwedigaethol) ddiwethaf gan ddod i rym o 1 Ebrill 2019		

ATODIAD A

ROLAU DIFFODD TÂN - CYFRADDAU CYFLOG O'R 1af O ORFFENNAF 2021

	Cyflog Sylfaenol Blynyddol £	Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr £	Cyfradd Goramser £
Diffoddwr Tân			
Hyfforddai	24,191	11.05	16.58
Datblygu	25,198	11.51	17.27
Cymwys	32,244	14.72	22.08
Rheolwr Criw			
Datblygu	34,269	15.65	23.48
Cymwys	35,747	16.32	24.48
Rheolwr Gwylfa			
Datblygu	36,521	16.68	25.02
Cymwys A	37,535	17.14	25.71
Cymwys B	39,974	18.25	27.38
Rheolwr Gorsaf			
Datblygu	41,578	18.99	28.49
Cymwys A	42,827	19.56	29.34
Cymwys B	45,861	20.94	31.41
Rheolwr Grŵp			
Datblygu	47,887	21.87	Ddim yn gymwys
Cymwys A	49,323	22.52	"
Cymwys B	53,086	24.24	"
Rheolwr Ardal			
Datblygu	56,220	25.67	Ddim yn gymwys
Cymwys A	57,905	26.44	"
Cymwys B	61,667	28.16	"

ATODIAD B

ROLAU PENODOL AR GYFER RHEOLI - GRADDAU TÂL O'R 1af o ORFFENNAF 2021

*(95% o'r cyflog sylfaenol blynyddol diffoddwr tân perthnasol, fel y nodwyd o fewn Atodiad A)

	Cyflog Sylfaenol Blynyddol £	Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr £	Cyfradd Goramser £
Diffoddwr Tân (Rheoli)			
Hyfforddai	22,981	10.49	15.74
Datblygu	23,938	10.93	16.40
Cymwys	30,632	13.99	20.99
Rheolwr Criw (Rheoli)			
Datblygu	32,556	14.87	22.31
Cymwys	33,960	15.51	23.27
Rheolwr Gwylfa (Rheoli)			
Datblygu	34,695	15.84	23.76
Cymwys A	35,658	16.28	24.42
Cymwys B	37,975	17.34	26.01
Rheolwr Gorsaf (Rheoli)			
Datblygu	39,499	18.04	27.06
Cymwys A	40,686	18.58	27.87
Cymwys B	43,568	19.89	29.84
Rheolwr Grŵp (Rheoli)			
Datblygu	45,493	20.77	Ddim yn gymwys
Cymwys A	46,857	21.40	"
Cymwys B	50,432	23.03	"

	Diffoddwr Tan		Rheolwr Criw		Rheolwr Gwylfa		Talwyd fel honorarwm	Rheolwr Gorsaf	Talwyd fel honorarwm	
105 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	62.5	62.5	62.5	62.5 + 12.5 awr Gweinyddol	62.5 + 12.5 awr Gweinyddol	62.5 + 12.5 awr Gweinyddol	62.5 + 12.5 awr Gweinyddol	62.5 + 12.5 awr Gweinyddol	62.5 + 12.5 awr Gweinyddol	62.5 + 12.5 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				75	75	75	75	75	75	75
Cyfanswm Cyflog	£10,359.38	£10,790.63	£13,800.00	£17,606.25	£18,360.00	£18,765.00	£19,282.50	£20,531.25	£21,363.75	£22,005.00
94.5 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	56.25	56.25	56.25	56.25 + 11.25 awr Gweinyddol	56.25 + 11.25 awr Gweinyddol	56.25 + 11.25 awr Gweinyddol	56.25 + 11.25 awr Gweinyddol	56.25 + 11.25 awr Gweinyddol	56.25 + 11.25 awr Gweinyddol	56.25 + 11.25 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				67.5	67.5	67.5	67.5	67.5	67.5	67.5
Cyfanswm Cyflog	£9,323.44	£9,711.56	£12,420.00	£15,845.63	£16,524.00	£16,888.50	£17,354.25	£18,478.13	£19,227.38	£19,804.50
84 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	50	50	50	50 + 10 awr Gweinyddol	50 + 10 awr Gweinyddol	50 + 10 awr Gweinyddol	50 + 10 awr Gweinyddol	50 + 10 awr Gweinyddol	50 + 10 awr Gweinyddol	50 + 10 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				60	60	60	60	60	60	60
Cyfanswm Cyflog	£8,287.50	£8,632.50	£11,040.00	£14,085.00	£14,688.00	£15,012.00	£15,426.00	£16,425.00	£17,091.00	£17,604.00
73.5 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	43.75	43.75	43.75	43.75 + 8.75 awr Gweinyddol	43.75 + 8.75 awr Gweinyddol	43.75 + 8.75 awr Gweinyddol	43.75 + 8.75 awr Gweinyddol	43.75 + 8.75 awr Gweinyddol	43.75 + 8.75 awr Gweinyddol	43.75 + 8.75 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				52.5	52.5	52.5	52.5	52.5	52.5	52.5
Cyfanswm Cyflog	£7,251.56	£7,553.44	£9,660.00	£12,324.38	£12,852.00	£13,135.50	£13,497.75	£14,371.88	£14,954.63	£15,403.50
63 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	37.5	37.5	37.5	37.5 + 7.5 awr Gweinyddol	37.5 + 7.5 awr Gweinyddol	37.5 + 7.5 awr Gweinyddol	37.5 + 7.5 awr Gweinyddol	37.5 + 7.5 awr Gweinyddol	37.5 + 7.5 awr Gweinyddol	37.5 + 7.5 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				45	45	45	45	45	45	45
Cyfanswm Cyflog	£6,215.63	£6,474.38	£8,280.00	£10,563.75	£11,016.00	£11,259.00	£11,569.50	£12,318.75	£12,818.25	£13,203.00
52.5 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	31.25	31.25	31.25	31.25+6.25 awr Gweinyddol	31.25+6.25 awr Gweinyddol	31.25+6.25 awr Gweinyddol	31.25+6.25 awr Gweinyddol	31.25+6.25 awr Gweinyddol	31.25+6.25 awr Gweinyddol	31.25+6.25 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				37.5	37.5	37.5	37.5	37.5	37.5	37.5
Cyfanswm Cyflog	£5,179.69	£5,395.31	£6,900.00	£8,803.13	£9,180.00	£9,382.50	£9,641.25	£10,265.63	£10,681.88	£11,002.50
42 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	25	25	25	25+5 awr Gweinyddol	25+5 awr Gweinyddol	25+5 awr Gweinyddol	25+5 awr Gweinyddol	25+5 awr Gweinyddol	25+5 awr Gweinyddol	25+5 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				30	30	30	30	30	30	30
Cyfanswm Cyflog	£4,143.75	£4,316.25	£5,520.00	£7,042.50	£7,344.00	£7,506.00	£7,713.00	£8,212.50	£8,545.50	£8,802.00
31.5 Awr	Hyfforddai	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymhwysedd	Datblygu	Cymwys A	Cymwys B	Datblygu	Cymwys A
Graddfa gyflog yr awr	£11.05	£11.51	£14.72	£15.65	£16.32	£16.68	£17.14	£18.25	£18.99	£19.56
Nifer yr Oriau	18.75	18.75	18.75	18.75+3.75 awr Gweinyddol	18.75+3.75 awr Gweinyddol	18.75+3.75 awr Gweinyddol	18.75+3.75 awr Gweinyddol	18.75+3.75 awr Gweinyddol	18.75+3.75 awr Gweinyddol	18.75+3.75 awr Gweinyddol
a dalwyd bob mis				22.5	22.5	22.5	22.5	22.5	22.5	22.5
Cyfanswm Cyflog	£3,107.81	£3,237.19	£4,140.00	£5,281.88	£5,508.00	£5,629.50	£5,784.75	£6,159.38	£6,409.13	£6,601.50

**MAE'R DUDALEN HON YN FWRIADOL
WAG**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Cyflog Staff Corfforaethol a ddaw i rym o'r 1af o Awst 2021

Gradd	Pwynt Cyflog	Cyflog
4	5 6	£19,312 £19,698
5	7 8	£20,092 £20,493
6	10 11 12	£21,322 £21,748 £22,183
7	15 16 17	£23,541 £24,012 £24,491
8	20 21 22	£25,991 £26,511 £27,041
9	23 24 25	£27,741 £28,672 £29,577
10	26 27	£30,451 £31,346
11	28 29	£32,234 £32,910
12	30 31	£33,782 £34,728
13	32 33	£35,745 £36,922
14	34 35	£37,890 £38,890
15	36 37	£39,880 £40,876
16	38 39	£41,881 £42,821
17	40 41	£43,857 £44,863
18	42 43	£45,859 £46,845

Echdyniad

**Cyd-Bwyllgor Negodi Telerau ar gyfer Gweithwyr Crefft a
Gweithwyr Cysylltiol Awdurdodau Lleol**

GWEITHWYR CYSYLLTIOL

Mae'r tâl ar gyfer gweithwyr crefft a chysylltiol o'r wythnos dalu sy'n cynnwys y **1af o Ebrill 2020** fel a ganlyn:

Prentisiaid Peiriannu a Thrydanol

Mae Prentisiaid Peiriannu a Thrydanol yn dilyn cwrs hyfforddi cydnabyddedig. Mae'r gyfradd yr wythnos a'r gyfradd ar gyfer cyfrifo goramser a thaliadau premiwm eraill o'r wythnos dalu sy'n cynnwys y **1af o Ebrill 2016** fel a ganlyn (dynodir y ganran o'r gyfradd llawn amser mewn cromfachau).

Oed ar fynediad	Blwyddyn 1af	2il Flwyddyn	3ydd Blwyddyn	4ydd Blwyddyn
	1af o Ebrill 2020	1af o Ebrill 2020	1af o Ebrill 2020	1af o Ebrill 2020
16 mlynedd	£203.70 (55%)	£259.25 (70%)	£333.32 (90%)	£351.84 (95%)
17 mlynedd	£203.70 (55%)	£296.29 (80%)	£333.32 (90%)	£351.84 (95%)
18 mlynedd+	£296.29 (80%)	£314.81 (85%)	£333.32 (90%)	£351.84 (95%)

ATODIAD 6

DIFFODDWR TÂN CYNORTHWYOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Bydd Diffoddwr Tân Cynorthwyol yn cael eu cysylltu â'r Llyfr Gwyrdd a bydd y tâl yn yn cynnwys y cydrannau canlynol:

- £1,000 o dâl cadw i bob blwyddyn (a delir mewn rhandaliadau chwarterol o £250) ar gyfer argaeledd y tri mis blaenorol
- £1,000 y flwyddyn ar gyfer mynychu hyfforddiant (a dalwyd mewn rhandaliadau chwarterol o £250) ar gyfer gofynion mynychu a chydymffurfio a gofynion hyfforddi
- £250 y flwyddyn o ddyrchafiad cyflog i yrwr LGV (i gynnwys EDRT un diwrnod y flwyddyn)

Felly (yn amodol ar argaeledd wrth gwrdd â gofynion tâl cadw a mynychu hyfforddiant chwarterol):

- Bydd Diffoddwr Tân Cynorthwyol yn derbyn £2,000 y flwyddyn
- Bydd Diffoddwr Tân Cynorthwyol sydd hefyd yn EDRT (gyrrwr LGV ymateb) yn derbyn £2,250 y flwyddyn
- Bydd Diffoddwr Cynorthwyol sydd dim ond yn EDRT (gyrrwr LGV ymateb) yn derbyn £1,250 y flwyddyn

Yn ychwanegol, mae personél SDdG a SDdRhA o bob rheng (hyd at ac i gynnwys Rheolwr Ardal) hefyd yn gallu ymgeisio am "Gytundeb Hydwythedd". Bydd y cyflog rhwng £2,000 a £3,250, yn dibynnu ar setiau sgiliau.